

## Canllawiau Iaith

Y mae'r canllawiau iaith isod yn ffurfio rhan o Ganllawiau Cydymffurfiaeth S4C ac yn cynnig arweiniad ar yr hyn y mae S4C yn ei ddisgwyl gan gynhyrchwyr o ran defnydd o'r iaith Gymraeg mewn rhaglenni.

### 1. CANLLAWIAU IAITH

---

#### Y Gymraeg ar S4C

- 1.1** Amcan sylfaenol S4C yw darparu gwasanaeth teledu o safon uchel trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.
- 1.2** Prif nod S4C yw darparu sianel Gymraeg a fydd yn cael ei mwynhau, ei gwerthfawrogi a'i defnyddio gan wylwyr o bob rhan o Gymru, o bob oed, ac o wahanol lefelau o allu ieithyddol yn y Gymraeg.
- 1.3** Mae dyletswydd sylfaenol ar y gwasanaeth, ac ar bawb sy'n cyfrannu yn broffesiynol iddo, i gyfathrebu'n effeithiol â'r gynulleidfa hon yn ei chyfanrwydd.
- 1.4** I wneud hyn, rhaid cymryd ystyriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar allu gwylwyr i ddeall yr hyn a ddywedir a thrwy hynny fwynhau rhaglen yn llawn. Ymhlith yr elfennau ieithyddol y mae geirfa a chystrawen ac ymhlith yr elfennau technegol y mae llefaru, techneg sain, a'r lluniau a ddangosir. Swyddogaeth cynhyrchu rhaglen yw sicrhau fod sylw digonol yn cael ei roi i bob un o'r elfennau hyn.
- 1.5** Dylid anelu fel rheol at ieithwedd syml ond cywir, ac at ynganu eglur ond naturiol. Nid yw arferion iaith lafar bob dydd yn gymwys ar gyfer darlledu ar gyfer cenedl gyfan bob amser. Er enghraifft, mae llefaru tafodieithol cyflym yn medru bod yn ddeniadol iawn i wylwyr o'r ardal sy'n defnyddio'r dafodiaith honno, ond yn anodd iawn ei deall gan wylwyr nad ydynt yn gyfarwydd â'r dafodiaith. Fodd bynnag, gall yr un geiriau a brawddegau tafodieithol fod yn dderbyniol i gynulleidfa eang o'u cyflwyno yn arafach gyda thechneg llefaru effeithiol ac eglur. Dylid diffinio'r gynulleidfa darged yn ofalus wrth ystyried y cywair ieithyddol priodol ar gyfer pob rhaglen.
- 1.6** Mae ffurfiau iaith yn newid ac yn esblygu yn gyson. Mae'n bwysig fod yna le ar wasanaeth S4C i unigolion a chymunedau ddefnyddio'r iaith mewn ffordd greadigol ac i arbrofi gyda ffurfiau newydd. Ar yr un pryd, mae i wasanaeth darlledu cenedlaethol swyddogaeth bwysig o gyflwyno iaith sy'n safonol, yn gywir ac eto'n hawdd ei deall. O fewn y fath wasanaeth mae'n bosib y bydd yna raglenni sydd â swyddogaeth benodol ac i'r rhain fabwysiadu arddull ieithyddol arbennig er mwyn cyrraedd eu nod ond dylai hyn bob amser ddigwydd yn dilyn trafodaeth fanwl gyda'r Comisiynydd Cynnwys perthnasol a gyda'i gydsyniad ef neu hi.
- 1.7** Mae gwahaniaeth mawr rhwng y safonau y dylai cyflwynwyr a chyfranwyr proffesiynol anelu atynt a'r ystyriaethau sy'n berthnasol i gyfranwyr eraill. Mae lle i ddisgwyl i gyfranwyr proffesiynol gyfathrebu yn llwyddiannus gyda chynulleidfa eang tra ar yr un pryd yn anelu at safon uchel o gywirdeb a llefaru. Er enghraifft, mae S4C yn disgwyl i'w chyflwynwyr dreiglo'n gywir a gwneud defnydd cywir o

genedl enwau. Mae disgwyl hefyd iddynt fod â gafael da ar briod-ddulliau'r iaith Gymraeg gan fedru osgoi cyfieithu llythrennol o ymadroddion Saesneg heb bwrpas. Mae cyfrifoldeb ar gynhyrchwyr i roi arweiniad a hyfforddiant, lle bo angen, i'r perwyl hwn.

- 1.8** Mae S4C yn awyddus iawn i weld cynrychiolaeth mor eang â phosibl o fywyd Cymru a'i thrigolion yn cael ei hadlewyrchu ar ei rhaglenni. Mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn ansicr ynglŷn â'u gallu ieithyddol eu hunain ac yn aml yn teimlo "nad yw eu Cymraeg yn ddigon da". Dylai rhaglenni sy'n gwneud defnydd o gyfranwyr o blith y cyhoedd eu cymell i wneud hynny yn eu hiaith naturiol. Lle gofynnir am gymorth, mewn perthynas â geirfa er enghraifft, dylid rhoi'r gymorth hwnnw, ond dylid osgoi unrhyw awgrym o orfodaeth i ddefnyddio Cymraeg 'cyfoethog', os nad yw hynny'n naturiol i'r cyfrannwr.
- 1.9** Dylid cymryd gofal arbennig gyda chyflwyniadau neu dros-leisiadau sydd wedi eu sgriptio ymlaen llaw. Ni ddylid defnyddio ffurfiau ac ieithweddau llenyddol yn y fath gyflwyniadau. Yn hytrach, dylid sicrhau fod sgriptwyr a llefarwyr yn ymwybodol o'r angen i sicrhau fod ffurfiau llafar cywir sy'n naturiol i'r llefarydd yn cael eu defnyddio.
- 1.10** Mae S4C yn credu fod i'r gwasanaeth swyddogaeth o helpu i ehangu defnydd o eirfa Gymraeg gyfoes lle gellir gwneud hynny heb amharu ar ddealltwriaeth o gynnwys y rhaglen a mwynhad ohoni. Dylai cynhyrchwyr fod yn ymwybodol fodd bynnag pan ddefnyddir termau technegol anghyfarwydd neu newydd y gall hyn fod yn rhwystr i ddealltwriaeth o raglen a dylid gwneud pob ymdrech bosibl i atgyfnerthu dealltwriaeth o'r gair neu gymal trwy:
- (i) osgoi defnyddio cyfres o eiriau anghyfarwydd yn agos at ei gilydd;
  - (ii) osgoi defnyddio geiriau anghyfarwydd ochr yn ochr â chystrawennau nad ydynt yn perthyn i'r iaith lafar;
  - (iii) geisio atgyfnerthu dealltwriaeth o eiriau newydd trwy sicrhau fod y llun neu'r cyd-destun yn cynorthwyo i egluro'r ystyr.

## **2. DEFNYDD O'R IAITH SAESNEG MEWN RHAGLENNI CYMRAEG**

---

### **Defnydd o eiriau neu gymalau Saesneg achlysurol**

- 2.1** Mae'r canllawiau cyffredinol uchod i gyd yn berthnasol wrth ystyried y cwestiwn anodd o ddefnydd o eiriau neu ymadroddion Saesneg o fewn cyflwyniadau Cymraeg. Mae hyn yn nodwedd gyffredin iawn o'r iaith lafar ac nid yw S4C yn honni fod atebion terfynol i'w cael. Serch hynny, mae'n fater sy'n haeddu gofal a sylw deallus gan gynhyrchwyr ac ni ddylid cymryd y gwnaiff y tro i gyflwynwyr ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Saesneg hyd yn oed os yw'r rhain i'w clywed yn gyffredin yn yr iaith lafar.
- 2.2** Mae ymchwil yn dangos fod gwylwyr yn gyffredinol:
- (a) yn dymuno i S4C arddel safonau ieithyddol uchel;
  - (b) yn credu fod iaith rhai rhaglenni yn rhy anodd;
  - (c) yn croesawu rhaglenni sy'n defnyddio iaith debyg i'w iaith lafar eu hunain.

Nid oes cysondeb o anghenraid rhwng y tri chanfyddiad yma ond wrth ystyried geirfa rhaglen rhaid cadw'r tri mewn cof.

- 2.3** Mae S4C yn credu fod geirfa Gymraeg gyfoethog, sy'n ddealladwy i bawb sy'n siarad yr iaith, yn ddelfryd i'w choleddu a'i hyrwyddo. Ar yr un pryd, ac yr un mor bwysig, rhaid ymdrechu'n barhaol i sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir mewn rhaglen yn hollol ddealladwy i'w chynulleidfa darged ac yn cynorthwyo'r gynulleidfa honno i ymateb yn gadarnhaol i'r rhaglen a'i mwynhau.
- 2.4** Mae amrywiaethau mawr yn yr hyn a ystyrir yn dderbyniol, yn ddymunol neu'n gyffredin rhwng un garfan o gymdeithas a'r llall. Ni ellir cymryd yn ganiataol fod defnydd o air Saesneg sy'n gyffredin iawn mewn un cylch cymdeithasol neu ardal yr un mor dderbyniol mewn ardal neu gylch arall. Yn yr un modd, fe fydd rhai geiriau Cymraeg sy'n gyfarwydd ac yn gyffredin mewn rhai cylchoedd yn cael eu hystyried yn anodd ac yn ddieithr mewn cylchoedd eraill.
- 2.5** Dylai cynhyrchwyr fod yn ymwybodol o'r angen i arolygu a rheoli'r defnydd o eiriau Saesneg o fewn eu rhaglenni er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r safon sy'n briodol i'r rhaglen.
- 2.6** Dylai cynhyrchwyr gymell cyflwynwyr proffesiynol i ehangu eu gwybodaeth a'u meistrolaeth o'r iaith fel eu bod yn medru cyfrannu yn greadigol ar bob achlysur at adnabod a defnyddio yr eirfa ac ieithwedd fwyaf priodol at bwrpas y rhaglen.
- 2.7** Dylai cynhyrchwyr geisio sicrhau nad yw'r defnydd o eiriau ac ymadroddion Saesneg yn cynyddu yn ddifeddwl a bod cyflwynwyr yn cael eu hannog drwy'r amser i ystyried beth yw'r cywair priodol.

### **3. DEFNYDD ARALL O'R SAESNEG MEWN RHAGLENNI CYMRAEG**

---

- 3.1** O bryd i'w gilydd, fe fydd cynhyrchydd yn ymwneud â sefyllfa lle y gall ymddangos yn ddeniadol a dilys, am resymau golygyddol, i gynnwys deunydd yn yr iaith Saesneg. Mae defnydd gofalus, dethol ac achlysurol o'r Saesneg yn medru ehangu rhawd ambell i raglen fel bod y rhaglen ynddi ei hun yn fwy cynhwysfawr a diddorol nag a fyddai fel arall.
- 3.2** Mae yna wrth gwrs lawer mwy o bobl yn y byd sy'n siarad Saesneg nag sydd yna sy'n siarad Cymraeg. Ar yr olwg gyntaf, felly, gall ymddangos yn bur hawdd i gynhyrchydd gyfiawnhau defnydd o Saesneg am resymau golygyddol dan lawer o amgylchiadau gwahanol. Mae S4C yn awyddus bod rhaglenni newyddion a chwaraeon, er enghraifft, yn gynhwysfawr ac awdurdodol yn eu gwahanol feysydd. Ar brydiau, er mwyn clywed barn ffigyrau allweddol, neu er mwyn cynrychioli ystod lawn y rhai sy'n cymryd rhan, fe fydd yn rhaid troi at gyfranwyr Saesneg eu hiaith. Fodd bynnag, mae unrhyw ddefnydd o Saesneg mewn rhaglen Gymraeg yn medru tanseilio ei dilysrwydd fel rhaglen Gymraeg sy'n cyfrannu at wasanaeth teledu Cymraeg.
- 3.3** Dylai pob cynhyrchydd felly fod yn ymwybodol fod yna ffin, sydd yn anodd ei diffinio gan ei bod i raddau helaeth yn oddrychol, rhwng yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn sy'n ormodol. Mae'r ffin yma'n bodoli o fewn rhaglenni unigol ac o fewn y gwasanaeth ar ei hyd. Dylai cynhyrchwyr geisio adnabod y ffin yma a'i pharchu

gan sicrhau fod pob aelod perthnasol o'r tîm cynhyrchu'n ymwybodol o'r arweiniad a roddir yn y ddogfen hon.

- 3.4** Dylid yn y lle cyntaf ymdrechu'n ddyfal i chwilio am siaradwyr Cymraeg i drafod pynciau sydd dan sylw. Wrth geisio safbwynt corff neu fusnes, dylid gofyn am lefarydd Cymraeg bob amser.
- 3.5** Bydd gan lawer o gyrff Gynllun Iaith sy'n datgan eu hymrwymiad i gyfathrebu yn Gymraeg â'r cyhoedd. Dylai cynhyrchwyr ofyn i'r fath gyrff ddarparu llefarydd yn unol â'u polisi ble bynnag y mae'n bosibl.
- 3.6** Ni ddylid defnyddio'r Saesneg wrth gyflwyno os nad oes rheswm golygyddol cryf dros wneud hynny.
- 3.7** Dylai pob cynhyrchydd fod yn ymwybodol o effaith unrhyw ddefnydd o'r Saesneg ar gynulleidfa darged y rhaglen wrth benderfynu a yw'r elfen Saesneg sydd dan ystyriaeth yn briodol ai peidio. Yn y pen draw barn y Comisiynydd Cynnwys fydd yn rheoli yn y mater hwn, a lle mae ansicrwydd dylid ymgynghori ag ef/hi ymlaen llaw.
- 3.8** Ni ddylid gwneud unrhyw ddefnydd estynedig o Saesneg o fewn rhaglen neu gyfres ond gyda chaniatâd penodol y Comisiynydd Cynnwys perthnasol. Pan fydd defnydd sylweddol o Saesneg yn cael ei ystyried dylai'r cynhyrchydd wneud hyn yn glir i'r Comisiynydd Cynnwys o'r cychwyn cyntaf er mwyn i'r Comisiynydd Cynnwys fedru ystyried priodoldeb hynny o fewn gofynion y rhaglen ei hun ac o fewn y gwasanaeth ar ei hyd.
- 3.9** Pan fydd y Comisiynydd Cynnwys yn ystyried a ddylid defnyddio'r Saesneg, bydd yn rhoi ystyriaeth i ddilysrwydd golygyddol ac adeiladwaith y rhaglen, faint o Saesneg ar gyfartaledd sydd yn y rhaglen, hyd pob eitem Saesneg unigol, a pherthynas y rhaglen dan sylw gyda rhaglenni eraill yn yr amserlen. Bydd yn ofynnol i'r cyflenwr lynu'n agos at ofynion y Comisiynydd Cynnwys fel yr hysbyswyd hwy iddo yn y cyswllt hwn.
- 3.10** Mewn rhaglenni ar gyfer oedolion, mae S4C yn gyffredinol yn mabwysiadu'r agwedd fod gwylwyr Cymraeg yn deall Saesneg. O'r herwydd, pan roddir cymeradwyaeth i ddefnydd o'r Saesneg, nid yw S4C yn gyffredinol yn disgwyl i'r eitemau hyn gael eu trosleisio neu eu hisdeitlo i'r Gymraeg er mwyn sicrhau dealltwriaeth. Fe all, fodd bynnag, fod yn briodol i ystyried cwtogi ar effaith defnydd estynedig o Saesneg trwy, er enghraifft, grynhoi yr hyn a ddywedir trwy gyfrwng sylwebydd. Mater o farn olygyddol yw hyn a dylid ymgynghori gyda'r Comisiynydd Cynnwys.
- 3.11** Nid yw S4C yn credu ei bod yn ymarferol nac yn ddymunol i geisio rhagweld a gosod rheol ymlaen llaw ar gyfer pob achlysur a all godi lle y gellid cyfiawnhau gwneud defnydd o'r Saesneg. Dyma rai enghreifftiau a all gynnig rheswm digonol:
  - (i) **Rhaglenni Newyddion, Materion Cyfoes, Rhaglenni Dogfennol a Rhaglenni Cylchgrawn.**
    - (a) Cyfweiliadau gyda phersonau blaenllaw nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg.
    - (b) Pan fydd angen rhoi cyfweiliad i berson sy'n allweddol bwysig i'r stori neu sy'n dyst i ddigwyddiad penodol.

- (c) Pan nad oes siaradwr Cymraeg ar gael i gynnig sylwadau ar fater o ddi-ddordeb cyhoeddus a lle mae gofyn sicrhau cydbwysedd a didueddrwydd priodol.

(ii) **Rhaglenni Drama a Chomedi**

Dyma feysydd lle na all rheolau a chanllawiau ragweld ffrwyth y dychymyg creadigol. Mae S4C yn awyddus i hyrwyddo defnydd creadigol a bywiog o'r iaith Gymraeg yn y cyd-destunau hyn ond yn cydnabod hefyd y gall fod yna achlysuron pan fod defnydd o'r Saesneg yn medru cyfrannu mewn ffordd benodol a gwahanol at amcanion y rhaglen. Yn gyffredinol, ni fyddai S4C yn ystyried bod yr amcan o adlewyrchu'r byd fel y mae yn reswm digonol dros ddefnyddio'r Saesneg mewn drama. Mae creu ffug realaeth creadwy mewn opera sebon a drama hir yn rhan o'r her o ddarparu gwasanaeth Cymraeg a byddem am weld cynhyrchwyr ac awduron yn wynebu'r her hon gyda dychymyg. Ar adegau, fodd bynnag, gall dychymyg yr un mor greadigol fod ar waith wrth ddefnyddio'r Saesneg, yn enwedig pan fo'r defnydd hwnnw yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'n cymdeithas trwy gyfrwng drama. Cyn cymeradwyo unrhyw sgript, bydd yn ofynnol i'r Comisiynydd Cynnwys benderfynu a fydd y defnydd arfaethedig o'r Saesneg yn dderbyniol ai peidio.

(iii) **Rhaglenni i Blant**

(a) **Meithrin**

Cymraeg yw'r unig iaith y dylid ei defnyddio mewn rhaglenni Cymraeg ar gyfer y grŵp oedran hwn.

(b) **Plant 5-10 oed**

Yn gyffredinol, Cymraeg yw'r unig iaith y dylid ei defnyddio mewn rhaglenni ar gyfer plant hŷn heblaw o dan rai amgylchiadau arbennig. Byddai'n rhaid cyfiawnhau'r defnydd o'r iaith Saesneg am resymau golygyddol i'r Comisiynydd Cynnwys perthnasol neu'r Cyfarwyddwr Comisiynu. Byddai hyn yn cynnwys defnydd o unrhyw bobl berthnasol am resymau golygyddol e.e. sêr pop enwog yn lansio ymgyrch, seremoni wobrwyo, dyfyniad pwysig yn y newyddion, fideos cerddoriaeth ayyb.

(c) **Pobol ifanc 10-15 oed**

Fel y brif gynulleidfa darged, mae'n bwysig iawn bod yr iaith a ddefnyddir yn y rhan hon o'r gwasanaeth rhaglenni yn fodern a syml ac yn adlewyrchu ffordd o fyw'r gwylwyr. Yn yr un modd â'r grŵp oedran 5-10, byddai'n rhaid cyfiawnhau'r defnydd o'r Saesneg am resymau golygyddol i'r Comisiynydd Cynnwys perthnasol neu'r Cyfarwyddwr Comisiynu. Byddai hyn yn cynnwys y defnydd o bobl berthnasol am resymau golygyddol, e.e. sêr pop enwog yn lansio ymgyrch, seremoni wobrwyo, dyfyniad pwysig yn y newyddion, fideos cerddoriaeth ayyb. Ar yr un pryd, dylid osgoi'r defnydd o'r Saesneg gan gyflwynwyr neu gyfranwyr er mwyn 'swnio'n hip neu'n cŵl'. Fodd bynnag, mewn gwlad ddwyieithog bydd yna ddefnydd o Saesneg mewn rhai rhaglenni - rhaid i'r defnydd yma unwaith yn rhagor gael ei gyfiawnhau i'r Comisiynydd Cynnwys perthnasol neu'r Cyfarwyddwr Comisiynu. Wrth asesu pa mor briodol yw defnyddio'r Saesneg, rhaid i'r

cwmni cynhyrchu fod yn ymwybodol o ymroddiad strategol S4C i feithrin a datblygu talent greadigol trwy gyfrwng y Gymraeg.

#### **4. GWYLWYR DI-GYMRAEG**

---

**4.1** Mae gwasanaeth S4C a'r iaith Gymraeg yn perthyn i Gymru gyfan gan gynnwys y di-Gymraeg. Mae'r sianel yn awyddus i gael ei gweld yn ddeniadol ac yn werthfawr i Gymry di-Gymraeg yn ogystal â Chymry Cymraeg. Dau brif ddull sydd o gyflawni hyn:

- (a) trwy ddarparu isdeitlau naill ai'n agored neu ar deletestun; a
- (b) trwy sicrhau fod y rhaglenni eu hunain yn ddeniadol ac yn berthnasol i'r gynulleidfa eang hon.

Rydym bellach yn cynnig trac troslais Saesneg ar fotwm ar wahân ar rai rhaglenni unigol, er mwyn cynnig gwasanaeth sydd mor ddeniadol â phosib i wylwyr nad ydynt yn medru'r Gymraeg. Gellir crynhoi ein hamcan cyffredinol ar gyfer y sianel yn yr arwyddair: 'Sianel Gymraeg ar gyfer Cymru gyfan'.

#### **5. DEFNYDD O IEITHOEDD ERAILL MEWN RHAGLENNI CYMRAEG**

---

**5.1** Mae cynnwys unrhyw iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg mewn rhaglenni yn fater golygyddol i'w drafod rhwng y cyflenwr a'r Comisiynydd Cynnwys.

**5.2** Pan fwriedir cynnwys deunydd mewn iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg mewn rhaglen, y Comisiynydd Cynnwys fydd yn penderfynu a ddylai'r cyfraniad gael ei isdeitlo neu ei ddybio. Dylai'r cyflenwr gysylltu ag S4C cyn gynted â phosibl i gael arweiniad. Pa ddull bynnag a ddefnyddir, dylid cymryd camau i sicrhau bod y cyfieithiad yn adlewyrchu gwir ystyr yr iaith wreiddiol.

**Ebrill 2015**